OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1149

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020

## RHAN 2

Cyfyngiadau ar symud ac ymgynnull gydag eraill

### Gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau cerddorol penodol sydd heb eu trwyddedu

**9.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson ymwneud â threfnu digwyddiad cerddorol perthnasol sydd heb ei drwyddedu.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "digwyddiad cerddorol perthnasol sydd heb ei drwyddedu" yw digwyddiad—

(a) sy'n cynnwys mwy na 30 o bobl,

(b) lle y mae pobl yn ymgynnull yn groes i reoliad 4(1),

(c) lle y mae cerddoriaeth yn cael ei chwarae neu ei pherfformio at ddiben adloniant, neu at ddibenion sy'n cynnwys y diben hwnnw, a

(d) lle o ran chwarae neu berfformio cerddoriaeth—

(i) y mae'n weithgarwch trwyddedadwy (o fewn ystyr Deddf Trwyddedu 2003(**1**)), a

(ii) nas cynhelir o dan awdurdodiad nac yn unol ag awdurdodiad (o fewn yr ystyr a roddir i "authorisation" gan adran 136(5) o'r Ddeddf honno).

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, nid yw person yn ymwneud â threfnu digwyddiad cerddorol perthnasol sydd heb ei drwyddedu os nad yw'r person ond yn ymwneud â'r digwyddiad, neu na fyddai ond yn ymwneud â'r digwyddiad, drwy fynd iddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 9 mewn grym ar 23.10.2020 am 6.00 p.m., gweler **rhl. 1(3)**

(**1**) 2003 p. 17.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020, Adran 9.